



Caru Gwenyn
Bee Friendly



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Astudiaethau achos

Canolfan Crefftau'r Goedwig

Prosiect Adfer Blodau Gwylt Lleiniau Ymyl y Ffordd Sir Ddinbych

Cefndir

Mae'n bosibl i ymylon ffyrdd fod yn adnodd amgylcheddol gwych gan ddarparu : blodau ar hyd y tymor ar gyfer pryfed peillio; cynefin nythu ar gyfer cacwn a gwenyn unig; gorchudd ar gyfer mamaliaid bach; cynefin ar gyfer nifer o infertebratau; cysylltiad, yn enwedig gyda gwrychoedd dan reolaeth, rhwng cynefinoedd eraill megis coetiroedd, gwlypdiroedd, cyrsiau dŵr, rhostiroedd a gweundiroedd.

Dros yr ychydig ddegawdau diwethaf y drefn ar gyfer torri glaswellt gan yr awdurdodau lleol ar leiniau ar ymyl y ffyrdd oedd torri am y tro cyntaf ym mis Mai, cyn i ran fwyaf y blodau gwylt gael amser i flodeuo a hadu.

Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu gan fod rhai cartrefi yn "mabwysiadu" y llain y tu allan i'w cartrefi (rhan o'r briffordd) a'u troi yn estyniad i lawnt eu gerddi drwy dorri'r glaswellt yn rheolaidd.

Os oedd rhai lleiniau yn cael eu gadael heb eu torri roedd cwynion i'r awdurdod lleol eu bod yn edrych yn flêr.



Yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf bu ymdrechion cynyddol gan amrywiol unigolion a sefydliadau cadwraeth a hefyd gan swyddogion yr Awdurdod Lleol i newid y ffordd y caiff ymylon ffyrdd, yn enwedig is-ffyrdd, eu rheoli, yn y gobaith, os oes oedi cyn y toriad cyntaf, y bydd bywyd gwylt brodorol yn ail-ymddangos.

Arweinodd hyn at greu grŵp anffurfiol "Bywyd ar y Lleiniau" yn cynnwys swyddogion yr Awdurdod, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru ac unigolion â diddordeb.





Caru Gwenyn
Bee Friendly



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



O ganlyniad i hyn cyflwynodd yr Awdurdod Lleol gynllun rheoli newydd ar gyfer lleiniau ar ymylon ffyrdd gan ddechrau gydag ychydig o ardaloedd dethol ac yna gynnwys y Sir gyfan.



Mae'r rhaglen hon yn golygu gadael y lleiniau ar y ffyrdd llai heb eu torri tan fis Awst, ar wahân i ble y mae angen eu torri er diogelwch ar y ffyrdd.



Er bod rhai lleiniau ar ochr y ffyrdd wedi ymateb yn bositif i'r drefn torri glaswellt newydd sy'n osgoi torri cynnar ac yn caniatâu i blanhigion flodeuo a hadu, mae rhai lleiniau wedi'u his-raddio i'r pwynt ble y mae'n anhebygol y bydd ystod eang o blanhigion yn dychwelyd.

Mae'r lleiniau hyn yn dueddol o weld planhigion fel glaswellt bras, tafol, danadl poethion, mieri, hemlog ac ati.



Awgrymwyd felly y dylid cael rhaglen i ail-gyflwyno planhigion a chysylltu gyda nifer o bobl o fewn y gymuned.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi nodi rhai lleiniau eisoes ble y mae sawl rhywogaeth ac wedi eu dynodi fel Gwarchodfeydd Natur ar Ymyl Ffyrdd gyda'u cynlluniau rheoli eu hunain a phenderfynwyd defnyddio hadau o'r rhain ar gyfer rhaglen ail-gyflwyno.



**Caru Gwenyn
Bee Friendly**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r rhaglen yn cynnwys yr elfennau canlynol:

1. Staff o Ymddiriedolaeth Gogledd Cymru a Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych i barhau i arolygu lleiniau ymyl ffyrdd i sefydlu yr ardaloedd sydd â phlanhigion da ac a fyddai'n addas ar gyfer casglu hadau.
2. Mae grwpiau gwirfoddoli o dan gyfarwyddyd staff o Ymddiriedolaeth Gogledd Cymru a Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych i gasglu hadau ar yr adegau priodol. Angen i'r hadau i gyd gael eu nodi gyda'r rhywogaeth, y safle a'r dyddiad.
3. Anfon hadau at Ganolfan Crefftau'r Goedwig fydd yn eu storio mewn ffordd addas.
4. Canolfan Crefftau'r Goedwig i hadu'r hadau ar yr amser iawn mewn hambyrddau hadau yn eu twnelau polythen, ac, unwaith y mae'r planhigion o faint addas, eu plannu mewn plygiau, celloedd neu botiau.
5. Unwaith y mae'r planhigion wedi'u sefydlu byddant ar gael am ddim i ysgolion lleol, cynghorau cymunedol, grwpiau cymunedol ac ati.
6. Bydd y grwpiau hyn yn tyfu'r planhigion ac yn casglu'r hadau a thyfu rhagor o blanhigion neu drosglwyddo'r hadau i grwpiau eriall.
7. Yna bydd y grwpiau hyn yn cysylltu â'r Adran Briffyrdd a chyrrff eraill i benderfynu ble y gellid planu'r planhigion y tu allan ac yna eu plannu yno.

Canlyniadau:

1. Ail-gyflwyno planhigion ar leiniau ymyl ffyrdd lleol gan ddefnyddio hadau wedi'u casglu'n lleol.
2. Cynnwys y gymuned leol cymaint â phosibl drwy wirfoddolwyr : Gwirfoddolwyr Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn casglu hadau; oedolion gydag amrywiol anabledau sy'n gweithio yng Nghanolfan Crefftau'r Goedwig i hau hadau ac yna edrych ar ôl planhigion; ysgolion a grwpiau cymunedol yn cymeryd planhigion i'w tyfu; cymunedau lleol yn mabwysiadu ymylon ffyrdd yn eu hardal ac yn ail-gyflwyno'r blodau gwyllt.

Canolfan Crefftau'r Goedwig

Rod Waterfield
The Warren,
Bodfari,
Dinbych,
LL16 4DT

Ffôn dydd: 01745 710626

symudol: 07711 472033

e-bost: enquiries@woodlandskillscentre.co.uk

www.woodlandskillscentre.co.uk